Cofnodion Pwyllgor 15.12.2020 - drwy 'Zoom'

Yn Bresennol

Cen Llwyd	Alun Davies (Yn y gadair)
Gareth Lloyd	Gareth Evans
Mary Davies	Aled Dafis

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Cecil Jones.

Cofnodion

Cynigiwyd cofnodion mis Tachwedd yn gywir gan y Cyng Aled Davis ac ategwyd hyn gan y Cyng Gareth Evans.

Datgelu Buddiannau
Wnaeth y Cyng Aled Dafis ddatgan diddordeb ynglyn a'r papur a dderbyniwyd oddi wrth Heledd Gwyndaf.

Gohebiaeth

CSC - Praesept Penderfynwyd gadael lefel y praesept yr un fath am y flwyddyn nesaf. Mi fydd y clerc yn gwneud cais am £9873.00.

C.Ff.I Caerwedros Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y cyfraniad ariannol.

Cyfleusterau Cyhoeddus Cwmtydu Mae'r Cyngor wedi derbyn £305.00 sef y cyfraniadau sydd wedi eu casglu eleni. Hefyd derbyniwyd anfoneb o £190.00 oddiwrth Aled a Lynn Davies am agor a glanhau'r cyfleusterau.

Heledd Gwyndaf Darllenwyd papur yn rhestri galwadau sydd wedi eu gwneud gan Gyngor Tref Nefyn ac wedi'u cefnogi gan rhai Gynghorau Cymuned a Thref eraill yng Nghymru. Cytunwyd i gefnogi mewn egwyddor. Er hynny mi fydd angen cyfle ar y Cynghorwyr i fwrw golwg dros y gosodiadau yn fwy manwl er mwyn medru ymateb yn ffurfiol ac gwneud yn siwr fod modd gweithredu'r galwadau arfaethedig. Mi fydd y clerc yn danfon y papur allan.

Cais i'r Cyngor Cymuned.docx

Taliadau
Aled a Lynn Davies £190.00

Unrhyw Fater Arall
Tudalen 'Facebook' Cafwyd trafodaeth ynglyn a chodi ymwybyddiaeth ynglyn a rôl y Cyngor o fewn y Gymdeithas. Mi roedd y Cyng Aled Dafis o'r farn y byddau creu tudalen ar

y cyfryngau cymdeithasol yn un ffordd o wneud hynny. Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda Un Llais Cymru am ganllawiau ar sut i wneud hyn o fewn ein cyfyngiadau.